**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held at Conference Room - Usk, NP15 1AD on Dydd Llun, 16eg Medi, 2019 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillors: P. Clarke, D. Evans, S. Woodhouse

I. Cameron (Community Representative)
P. Easy
R. McGonigle (Independent Representative)
R Williams-Flew

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Matthew Phillips | Head of Law/ Monitoring Officer |
| Annette Evans | Customer Relations Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**APOLOGIES:**

Councillors

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

2. **LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS I GYMRU 2018/19 AC ADRODDIAD CWYNION, SYLWADAU A CHANMOLIAETH AWDURDOD CYFAN CYNGOR SIR FYNWY 2018/19**

Fe dderbyniom lythyr blynyddol 2018/19 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac adroddiad cwynion, sylwadau a chanmoliaeth Awdurdod Cyfan Y Cyngor Sir 2018/19.

Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gall trigolion Sir Fynwy gwyno dros y ffôn, drwy ddefnyddio gwefan y Cyngor Sir, drwy'r Hybiau Cymunedol neu drwy anfon llythyr.

- Mae'r Ombwdsmon wrthi'n sefydlu Awdurdod Safonau Cwynion newydd gyda'r bwriad o greu meincnod ar draws Cymru. Bydd cwynion yn cael eu categoreiddio o dan amryw o benawdau er mwyn mesur sut y mae pob awdurdod yng Nghymru'n perfformio. Bydd gofyn i bob awdurdod ddarparu ystadegau chwarterol ar y cwynion y maent wedi eu derbyn.

- Y model y mae'r Ombwdsmon yn edrych arno yw Awdurdod Safonau Cwynion yr Alban

- Ymdrinnir â chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â phroses statudol ar wahân. Mae dau gam i'r broses hon ac mae angen swyddog ymchwilio allanol ar gyfer yr ail gam. Os yw'r gwyn yn ymwneud â Gwasanaethau Plant, yna mae

angen person annibynnol hefyd. O ganlyniad, mae cost ynghlwm â chwynion gwasanaethau cymdeithasol os ydynt yn cyrraedd cam ffurfiol y broses.

- Mae'r Pwyllgor Safonau'n canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r cod ymddygiad yn hytrach nag ar gwynion. Cyflwynir data ar gwynion i'r Pwyllgor Archwilio ac i'r Cabinet.

Nodwyd yr adroddiad.

## 3. PANEL DYFARNU DIWEDDAR AR GANLYNIAD CYMRU

Derbyniom Adroddiad Penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru ar doriad honedig o'r Cod Ymddygiad gan y Cynghorydd Graham Down.

Nodwyd bod yr achos wedi ei ollwng am nad oedd cwyn wedi ei wneud i'r Ombwdsmon a fyddai wedi ei alluogi i ymchwilio i mewn i'r mater.

Yn dilyn derbyn yr adroddiad, byddai'r Swyddog Monitro'n ysgrifennu at yr Ombwdsman yn gofyn am eglurder gan ofyn a yw'r pwerau newydd yn ein galluogi i fynd ati ar ein liwt ein hunain i ymchwilio i mewn i awdurdodau lleol o ran materion sy'n ymwneud â chod ymddygiad.

## 4. CYNHADLEDD CLERCOD - ADBORTH A THRAFODAETH

Derbyniom adborth o'r Gynhadledd Clercod. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y clerc a fynychodd yn teimlo bod y gynhadledd wedi bod o fudd mawr. Dylai clercod gael eu grymuso er mwyn iddynt deimlo'n hyderus wrth gynghori eu pwyllgorau.

- Mae'r clercod wedi mynegi y byddai mwy o gynadleddau yn y dyfodol o fudd.

- Roedd y rheiny a fynychodd y gynhadledd yn ddiolchgar iawn iddi gael ei chynnal a diolchodd y Pwyllgor Safonau i'r Swyddog Monitro am ei threfnu.

- Codwyd pryderon gan rai clercod ynglŷn â faint o fygythiadau a bwlio y maent yn eu wynebu yn eu rôl fel clercod. Materion eraill yn ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol a lefelau o hyfforddiant.

- Dylai clercod sydd wedi profi bwlio gysylltu â'r Swyddog Monitro yn y lle cyntaf. Os nad oes modd delio â'r mater yn y modd yma, bydd angen i'r clerc gysylltu â'r Ombwdsmon.

- Codwyd pryderon ynglŷn ag ymwybyddiaeth clercod ynglŷn â'r lefelau amrywiol o hyfforddiant sydd ar gael. Un o'r amcanion a ddeilliodd o'r gynhadledd oedd sicrhau bod clercod yn dysgu oddi wrth eu gilydd. Ar y cyfan, nid oedd hyfforddiant yn cael ei gydlynu ond yn hytrach, byddai'r cyfrifoldeb yn syrthio ar gynghorau unigol i drefnu hyfforddiant.

- Awgrymwyd y dylid darparu llyfryn cod ymddygiad i gynghorwyr sir a chynghorwyr cymuned er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth a chadw at safonau.

- Nodwyd na chafodd y gynhadledd ei mynychu gan oddeutu chwarter y cynghorau cymuned. Os yw'r gynhadledd yn cael ei chynnal yn y dyfodol, dylid annog y cynghorau yma i fynychu. Nododd y Swyddog Monitro y byddai cynadleddau'n cael eu sefydlu yn y dyfodol, gan gyfuno ag awdurdodau cyfagos o bosib.

- Daeth i'r amlwg nad oedd unrhyw ganllawiau i gynghorau ar p'unai y dylid sefydlu gwefannau ar gyfer cynghorau unigol.

- O ran cofnodi cyfarfodydd, cyfrifoldeb y cynghorau cymuned yw penderfynu os bydd eu cyfarfodydd yn cael eu cofnodi neu peidio. Pe byddai atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r Pwyllgor Safonau, gellid gwneud cais i gael gweld copi o gofnod o gyfarfod pe byddai'r cyngor dan sylw'n cofnodi ei gyfarfodydd.

- Daeth i'r amlwg bod diffyg gwybodaeth ymysg clercod ynglŷn â goddefebau ac nad oeddent yn teimlo'n hyderus o ran rhoi arweiniad i gynghorwyr.

- Mae grymuso'r clercod yn hanfodol o ran datrys y broblem hon a phroblemau eraill sy'n ymwneud â'r cyngor. Mae'r Swyddog Monitro'n cynnwys y clerc pan fydd yn delio â mater sydd wedi ei godi gan gynghorydd.

Nodwyd y diweddariad:

**5. <u>CANLLAW AR ASESU CYFARFODYDD Y CYNGOR</u>**

Cafwyd diweddariad ar drafodaeth ynglŷn ag asesu ac arsylwi cyfarfodydd y cyngor. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae cyfarfodydd yn amrywio'n sylweddol o un Cyngor Cymuned i'r llall. Gall hyd cyfarfodydd amrywio'n sylweddol wrth i fater dan sylw gael ei ystyried mewn manylder neu ei weinyddu'n gyflym.

- Mae'n hanfodol bod clerc a'r cadeirydd yn gwybod yn union beth yw eu rôl ac yn gallu cefnogi'r pwyllgor o ran materion sy'n ymwneud â chod ymddygiad a hyfforddiant er mwyn gallu helpu'r cyngor cymuned i gefnogi'r gymuned leol.

- Mae'n bosib y byddai cael trosolwg o bob un o'r 33 cyngor cymuned a chyngor tref yn Sir Fynwy o fudd wrth geisio deall eu hanghenion.

- Dylai safonau o fewn pob cyngor fod yn uchel ac aros ar y lefel yma.

- Pe byddai ymweliadau arsylwi'n cael eu gwneud i'r 33 cyngor tref a chyngor cymuned, gellid creu adroddiad y gellid ei ddosbarthu i'r cynghorau a fyddai'n amlinellu ymarfer da, mannau y gellid gwella a rhoi gwybodaeth am hyfforddiant sydd ar gael er enghraifft.

- Fel cam cyntaf, gellid cynnal ymweliadau gyda'r bwriad o ddeall yr hyn y mae pob cyngor yn ei wneud. Gellid anfon cais at bob cyngor i holi a fyddent yn fodlon i gynrychiolydd o'r Pwyllgor Safonau ymweld a mynychu un o'u cyfarfodydd yn y dyfodol.

- O'i gymharu ag awdurdodau eraill sydd ag aelodau o'u Pwyllgor Safonau'n ymweld â chynghorau cymuned, mae gan Sir Fynwy nifer sylweddol yn fwy o gynghorau cymuned na'r awdurdodau yma.

- Dylid annog Cynghorwyr Sir i fynychu cyfarfodydd eu cynghorau cymuned os nad ydynt yn gwneud hynny'n barod.

Cytunwyd:

1. Y byddai'r Swyddog Monitro'n trafod gyda'r swyddog cyfatebol yng Nghyngor Dinas Caerdydd a gwneud cais am y canllawiau ar sut y mae eu Pwyllgor Safonau'n ymgymryd ag ymweliadau arsylwi i gyfarfodydd ei gynghorau cymuned.

Yn y dyfodol, pe byddai'r Swyddog Monitro'n dymuno, gallai ysgrifennu at nifer ddethol o gynghorau tref / cymuned o fewn Sir Fynwy gan egluro bod y Pwyllgor Safonau eisiau gwell dealltwriaeth o sut mae cynghorau'n gweithredu a holi pe byddai'r cynghorau yma'n fodlon i aelod o'r Pwyllgor Safonau fynychu un o'u cyfarfodydd. Mae disgwyl y bydd hyn yn arwain at Bwyllgor Safonau Gwybodus a gallai adeiladu ar gyngor y clerc yn y dyfodol.

**6. <u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y 17eg o Fehefin 2019 gan y Cadeirydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau canlynol:

- Roedd Mr. T. Auld a Mr. R. Stow yn bresennol yn y cyfarfod.

- Cael gwared â 'Cynghorydd Sir' wrth gyfeirio at yr Aelodau Annibynnol yn y rhestr o'r rheiny sy'n bresennol.

Materion yn codi:

Cofnod 7: Trafodaeth ar gais Goddefeb

- Mae amser penodol wedi ei glustnodi mewn cyfarfodydd Cyngor Tref a Chyngor Cymuned ar gyfer rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd siarad. Nodwyd bod unigolyn wedi cael ei atal rhag siarad mewn cyfarfod cyngor cymuned rai blynyddoedd yn ôl a'i fod wedi cysylltu gyda'r Swyddog Monitro o ganlyniad. Nodwyd mai ar ddisgresiwn y Cadeirydd y gall y cyhoedd siarad ac mae'r amser sydd ar gael yn cael ei wneud yn glir i'r sawl sy'n cael caniatâd i siarad yn y cyfarfod.

- Roedd y ffurflen Oddefiad yn anodd i'w deall ac nid oedd yn hawdd i'w defnyddio. Cytunwyd y byddai fformat y ffurflen yn cael ei diweddaru ar y wefan gan y Swyddog Monitro.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held at Conference Room - Usk, NP15 1AD on Dydd Llun, 16eg Medi, 2019 at 10.00 am**

**7. Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried y materion busnes canlynol ar y sail y bydd gwybodaeth esempt yn debygol o gael ei ddatgelu**

Penderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem ganlynol ar y sail y byddai gwybodaeth wedi ei eithrio yn cael ei ddatgelu fwy na thebyg.

**8. DELIO Â CHWYNION CYFNOD CYNNAR Y SWYDDOG MONITRO**

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Swyddog Monitro ynglŷn a delio gyda chwynion yn y cyfnod cynnar.

Drwy gyfrwng y diweddariad, rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ynglŷn â rhai problemau gweithredol sydd wedi codi mewn perthynas â chyngor cymuned. Nodwyd bod y cyngor cymuned bellach mewn sefyllfa well o ran cydbwysedd.

Nodwyd y diweddariad.

**9. CYFARFOD NESAF I'W GYNNAL AR 16EG RHAGFYR 2019 AM 10AM**

Dydd Llun 16eg o Ragfyr 2019 am 10.00am.

**The meeting ended at 12.05 pm**